**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Thrawsnewid a Cyngor y Dyfodol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:**

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| J A Hale | C A Holley | P K Jones |
| S Pritchard | A H Stevens | L J Tyler-Lloyd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sue Reed | Rheolwr Datblygu Adeiladau Cymunedol |
| Debbie Smith | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Deallusrwydd Busnes. |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: C R Evans ac M B Lewis

---

## 31 Ethol Cadeirydd Dros Dro.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd J A Hale yn Gadeirydd Dros Dro.

**Y Cynghorydd J A Hale, Cadeirydd Dros Dro fu'n llywyddu**

## 32 Datgeliadau o Ddiddordebau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r côd ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau.

## 33 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

## 34 Diweddariad ar Gyfeillion Parciau a Pherchnogaeth Gymunedol.

Rhoddwyd diweddariad ar Gyfeillion Parciau a pherchnogaeth gymunedol gan y Swyddog Datblygu Adeiladau Cymunedol. Amlygodd y canlynol yn benodol: -

- Sefydlwyd 30 o grwpiau Cyfeillion Parciau a Mannau Agored gyda phedwar grŵp newydd yn aros i'w cymeradwyo
- Roedd 38 o adeiladau cymunedol gyda 2 grŵp newydd yn aros i'w cymeradwyo
- Roedd 16 o lawntiau bowls yn cael eu hunan-reoli gyda rhai prydlesau'n aros i gael eu cwblhau
- Roedd 17 cae pêl-droed yn cael eu hunan-reoli
- Roedd tri Swyddog Datblygu llawn-amser
- Roedd grwpiau cymunedol fel hyn wedi cyfrannu'n sylweddol ac, mewn rhai achosion, roeddent wedi cael mynediad i grantiau er mwyn cynorthwyo gyda rhai prosiectau
- Mae pecynnau gwybodaeth wedi cael eu creu erbyn hyn er mwyn helpu gyda chreu grwpiau newydd
- Mae rhai lawntiau bowls yn cael eu cynnal gan yr Adran Parciau am gost ac i fanyleb y cytunwyd arni (gan ddibynnu ar ofynion yr unigolyn)
- Mae prydlesau Asedau Cymunedol yn nodi bod yn rhaid i'r asedau perthnasol barhau i fod yn Asedau Cymunedol

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau ynglŷn â chreu grwpiau cymunedol newydd a chynlluniau ar gyfer y gwelyau blodau yn y Gerddi Botaneg. Cyfeiriwyd y pwyllgor at y swyddogion perthnasol er mwyn cael atebion i'w cwestiynau.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys y diweddariad**.**

## 35 Polisi Caffael - y Diweddaraf.

Rhoddwyd diweddariad ar y polisi caffael gan Reolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy.

Gobeithiwyd y byddai Swyddog Caffael wedi mynychu'r cyfarfod er mwyn hysbysu'r pwyllgor am ddiwygiadau i'r broses gaffael ond ni chafodd y diwygiadau eu cwblhau. Rhagwelir y byddai'r diwygiadau wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd yr wythnos ac y byddent yn cael eu hanfon i'r Adran Gyfreithiol i gael eu cymeradwyo. Ar ôl eu cwblhau, byddai'r diwygiadau'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor.

Roedd hwn wedi bod yn ddarn mawr o waith gyda chyfraniad arwyddocaol gan aelodau'r pwyllgor a swyddogion yn y gweithdai. Gobeithiwyd y byddai'r newidiadau a nodwyd yn cynorthwyo'r awdurdod cyfan wrth iddo chwalu rhwystrau ar gyfer cwmnïau llai.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 36 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Trafododd y pwyllgor y cynllun gwaith arfaethedig a gofynnodd am fwy o eitemau ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod.

Nododd y pwyllgor fod y Cyn-bwyllgor Cynghori'r Cabinet ar y Gwasanaethau Corfforaethol wedi mynychu ymweliad safle yn y Ganolfan Gyswllt yn 2016.

Teimlwyd bod yr ymweliad blaenorol yn ddefnyddiol ac amlygwyd nifer o faterion. Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor ymweld â'r safle eto er mwyn gweld y cynnydd a'r sefyllfa bresennol.

**Penderfynwyd** y byddai Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy yn trefnu ymweliad â'r Ganolfan Gyswllt yn Nghanolfan Ddinesig i'r pwyllgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.30 pm

**Cadeirydd**